Unpublished

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Ymddygiadau amgylcheddol, atgyweirio ac ailddefnyddio (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Mae'r adroddiad yn edrych ar ba ffactorau oedd yn gysylltiedig ag ymddygiadau ecogyfeillgar pobl yn ogystal â'u harferion atgyweirio ac ailddefnyddio ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 26 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 26 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Ymddygiadau amgylcheddol**

**Cymhellion**

**Osgoi neu gwtogi ar deithio mewn car**

**Osgoi neu leihau teithio mewn awyren**

**Osgoi neu fwyta llai o gig a chynnyrch llaeth**

**Lleihau'r defnydd o ynni yn y cartref**

**Lleihau prynu pethau newydd sbon**

**Atgyweirio ac ailddefnyddio**

**Camau atgyweirio ac ailddefnyddio unigol**

**Cymariaethau â ffynonellau eraill**

**Cyd-destun polisi**

**Gwybodaeth am ansawdd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Yn 2022-23, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl am gamau gweithredu ecogyfeillgar ac ymddygiadau atgyweirio ac ailddefnyddio.

Mae rhai canlyniadau o flynyddoedd blaenorol wedi'u cynnwys yn y modiwl hwn i roi cyd-destun.

Canfuom fod:

- 88% o bobl yn ymddwyn mewn ffordd ecogyfeillgar
- 95% o bobl wedi trwsio neu ailddefnyddio eitemau yn y 12 mis diwethaf
- ymddygiad sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac ymddygiad atgyweirio ac ailddefnyddio wedi'u cysylltu â'i gilydd
- ffactorau daearyddol yn gysylltiedig ag ymddygiad atgyweirio ac ailddefnyddio, ond nid ymddygiad ecogyfeillgar
- ‘cost’ yn fwy tebygol o fod y prif reswm dros ymgymryd ag ymddygiad sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd nag yr oedd rhwng Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ymddygiadau amgylcheddol




o bobl yn ymgymryd ag o leiaf un o chwe ymddygiad sy'n dda i'r amgylchedd

Gofynnwyd i bobl am chwe math o ymddygiad amgylcheddol y gellir eu bodloni fel rhan o fywyd bob dydd. Gofynnwyd iddynt ddweud a oeddent wedi:

- osgoi teithio mewn car neu leihau faint o weithiau y maent yn gwneud hynny
- osgoi teithio mewn awyren neu leihau faint o weithiau y maent yn gwneud hynny
- osgoi bwyta cig neu fwyta llai ohono
- osgoi bwyta cynnyrch llaeth neu fwyta llai ohono
- lleihau'r defnydd o ynni gartref
- lleihau prynu pethau newydd sbon

Gellid ymddwyn fel hyn am unrhyw reswm. Yna gofynnwyd i bobl am y prif reswm pam yr oeddent wedi ymddwyn fel hyn; archwilir y rhesymau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Roedd canran y bobl a ddywedodd eu bod wedi gwneud o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar yn uwch yn 2022-23 nag ym mis Gorffennaf 2021 i fis Ionawr 2022,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

pan oedd 82% o bobl wedi gwneud hynny.

## Ffigur 1: Ymddygiadau amgylcheddol, fesul blwyddyn, Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022 a Ebrill 2022 ac Mawrth 2023




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar yn dangos ymddygiadau amgylcheddol a gyflawnwyd gan bobl rhwng Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022, a 2022-23. Ni ddangosodd y rhan fwyaf o ymddygiadau unrhyw newid rhwng y ddwy flynedd, ond roedd mwy o bobl yn lleihau'r defnydd o ynni gartref ac yn lleihau prynu pethau newydd sbon yn 2022-23 o gymharu â Gorffennaf 2021 i Ionawr 2022.

Cynhaliwyd dadansoddiad manwl i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng ymgymryd ag o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar ac amrywiaeth o ffactorau demograffig a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

daearyddol. Fel gyda phob dadansoddiad o'r math hwn, ni allwn briodoli achos ac effaith ar gyfer y cysylltiadau hyn, nac ystyried ffactorau na fesurwyd yn yr arolwg. Gweler **gwybodaeth am ansawdd** am fwy o fanylion.

Wrth reoli am gysylltiadau â ffactorau eraill, roedd y canlynol yn gysylltiedig yn annibynnol ag ymgymryd ag ymddygiadau ecogyfeillgar:

Canfuwyd bod oedran yn ffactor cysylltiedig, gyda phobl 45 i 64 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o gyflawni ymddygiad ecogyfeillgar, gyda 91% o'r grŵp yn gwneud hynny. Mewn cymhariaeth, roedd yr unigolion hynny a oedd yn 65 oed neu'n hŷn yn llai tebygol o gyflawni ymddygiad ecogyfeillgar, gyda 84% yn gwneud hynny. Ni ddangosodd pobl 16 i 44 oed unrhyw newid o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd gwahanol grwpiau oedran yn fwy tebygol o ffafrio rhai mathau o ymddygiad, fel y dangosir yn Ffigur 2.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2: Cymryd rhan mewn ymddygiadau amgylcheddol, yn ôl oedran




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar yn dangos ymddygiadau amgylcheddol a berfformiwyd wedi'u rhannu yn ôl tri grŵp oedran. Roedd pobl 16 i 44 oed yn fwy tebygol na’r cyfartaledd cenedlaethol o brynu cyn lleied â phosibl o bethau newydd sbon, ond yn llai tebygol o gwtogi ar deithio mewn car neu awyren. Roedd pobl 45 i 64 oed yn fwy tebygol na’r cyfartaledd o leihau’r defnydd o ynni yn y cartref, yn ogystal â chwtogi ar deithio mewn car. Roedd pobl 65 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol na’r cyfartaledd o gwtogi ar deithiau awyren, ond roeddent yn llai tebygol o leihau’r defnydd o ynni gartref, lleihau prynu pethau newydd sbon, neu leihau’r defnydd o gynnyrch llaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Canfuwyd bod cyfeiriadedd rhywiol hefyd yn gysylltiedig yn annibynnol, gyda 96% o bobl nad ydynt yn heterorywiol yn cyflawni o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar, o gymharu â 88% o bobl heterorywiol. Roedd pobl nad ydynt yn heterorywiol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o gwtogi ar deithio mewn car (56%); lleihau'r cig a fwyteir ganddynt (40%); a lleihau'r cynnyrch llaeth a fwyteir ganddynt (23%).

Sefydlwyd statws priodasol i fod â chyswllt annibynnol, lle'r oedd partneriaid sy'n goroesi o briodasau a phartneriaethau sifil yn llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gyda 79% o bobl o'r fath yn gwneud hynny. Nid oedd gan bob grŵp priodasol mesuredig arall (sengl, priod neu â phartner, wedi gwahanu ar hyn o bryd, wedi ysgaru) unrhyw wahaniaethau oddi wrth ei gilydd na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd pobl a oedd yn sengl (nad oeddent erioed wedi priodi neu'n mynd i bartneriaeth sifil) yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod yn lleihau eu defnydd o ynni, gyda 71% yn gwneud hynny. Roedd partneriaid sydd wedi goroesi o briodasau a phartneriaethau sifil hefyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod yn lleihau eu defnydd o ynni, gyda 67% yn gwneud hynny. Mewn cyferbyniad, roedd pobl priod ar hyn o bryd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn lleihau eu defnydd o ynni, gyda 79% yn gwneud hynny.

Roedd gan bartneriaid a oedd wedi goroesi hefyd debygolrwydd is na'r cyfartaledd o fod yn prynu cyn lleied â phosibl o bethau newydd sbon (42%) ac o fwyta llai o gynnyrch llaeth (9%). Roedd pobl a oedd wedi ysgaru yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o fod yn bwyta llai o gig, gyda 33% o bobl wedi ysgaru yn gwneud hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Canfuwyd bod byw mewn amddifadedd materol yn gysylltiedig ag ymddygiad ecogyfeillgar. Gwnaeth 92% o bobl ag amddifadedd materol gyflawni o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar, o gymharu â 88% o bobl nad oeddent ag amddifadedd materol.

Roedd pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o fod yn prynu cyn lleied â phosibl o bethau newydd sbon o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 69% yn gwneud hynny. Roedd y grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn lleihau faint o gynnyrch llaeth y maent yn ei fwyta, gyda 17% yn gwneud hynny.

Canfuwyd bod **cymhwyster addysgol** uchaf yn ffactor cysylltiedig. Roedd pobl â Chymhwyster Cenedlaethol Lefel 4 neu gymwysterau uwch fwyaf tebygol o ymgymryd ag o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar, gyda 92% o bobl o'r fath yn gwneud hynny, o gymharu â 81% o'r rhai heb unrhyw gymwysterau. Ni ddangosodd pobl â Chymwysterau Cenedlaethol islaw Lefel 4 unrhyw wahaniaethau o'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ymddygiadau amgylcheddol.

Roedd gan bobl â Chymwysterau Cenedlaethol Lefel 4 neu uwch debygolrwydd uwch na'r cyfartaledd o berfformio pob un o'r chwe ymddygiad sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, tra oedd pobl heb unrhyw gymwysterau yn dangos tebygolrwydd is na'r cyfartaledd o berfformio pum ymddygiad ecogyfeillgar, gyda lleihau teithio ar awyren yn eithriad.

Roedd y weithred o naill ai atgyweirio neu ailddefnyddio eitemau yn ystod y 12 mis diwethaf (a holwyd amdano fel pwnc ar wahân) yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o ymgymryd ag ymddygiad amgylcheddol. Roedd 90% o bobl a oedd wedi atgyweirio neu ailddefnyddio eitemau yn y 12 mis diwethaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hefyd wedi perfformio o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar, o gymharu â 62% o bobl a oedd wedi perfformio ymddygiadau ecogyfeillgar nad oeddent wedi atgyweirio neu ailddefnyddio pethau.

Roedd pobl nad oeddent wedi atgyweirio neu ailddefnyddio pethau o fewn y 12 mis diwethaf yn llai tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o berfformio pob un o'r chwe ymddygiad ecogyfeillgar a amlygwyd.

Yn ogystal, canfuwyd bod rhyw yn ffactor sy'n gysylltiedig yn annibynnol ag ymddygiad sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, ond nid oedd gwahaniaeth rhwng dynion a merched o ran y tebygolrwydd o ymgymryd ag o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o leihau'r cig a fwyteir (33% o gymharu â 25%) ac o leihau eu pryniant o bethau newydd sbon (57% o gymharu â 49%).

Fel y crybwyllwyd uchod, cynhwyswyd ffactorau daearyddol hefyd yn y dadansoddiad manwl hwn. Fodd bynnag, ni chanfuwyd cysylltiadau rhwng cyflawni ymddygiad ecogyfeillgar a’r canlynol:

- awdurdod lleol
- dosbarthiad trefol-gwledig
- amddifadedd ardal (yn ôl **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**)

Yn ogystal, ni ellid dod o hyd i unrhyw gysylltiadau annibynnol rhwng ymddygiadau ecogyfeillgar ac ethnigrwydd, credoau crefyddol, neu fod â salwch cyfyngus hirdymor.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cymhellion

Gofynnwyd hefyd i bobl a gyflawnodd yr ymddygiadau ecogyfeillgar hyn am y prif reswm yr oeddent yn eu cyflawni. Roedd y rhesymau posibl a gyflwynwyd i ymatebwyr yn amrywio yn dibynnu ar yr ymddygiad dan sylw, ond roedd pob ymddygiad yn cynnwys y rhesymau ‘cost’, ‘i gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’, a ‘rheswm arall’ (y gallai'r ymatebwr ei ychwanegu). Gellir gweld yr union restr o resymau a gyflwynwyd dros bob ymddygiad yn **ein holiadur 2022-23**.

Ar gyfer pob un o’r chwe ymddygiad, nid ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ oedd yr ateb a roddwyd amlaf yn 2022-23, yr un fath ag a gafwyd rhwng Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022.

Nid oedd unrhyw newid yng nghanran y bobl a ddewisodd ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm dros bedwar o ymddygiadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol:

- osgoi neu leihau teithio mewn awyren (25%)
- osgoi neu fwyta llai o gig (18%)
- osgoi neu fwyta llai o gynnyrch llaeth (10%)
- lleihau prynu pethau newydd sbon (12%)

Roedd y ddau ymddygiad arall, fodd bynnag, yn dangos gostyngiadau yn y canrannau o bobl a ddywedodd mai newid hinsawdd oedd eu prif gymhelliant.

Roedd gostyngiad yn y bobl a oedd yn lleihau eu defnydd o ynni gartref a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddywedodd mai newid hinsawdd oedd eu prif gymhelliant, o 25% ym mis Gorffennaf 2021 i fis Ionawr 2022 i 11% yn 2022-23. Ar gyfer pobl a oedd yn osgoi neu'n cwtogi ar deithio mewn car, gostyngodd y ganran a ddewisodd newid hinsawdd fel eu prif reswm dros wneud hynny o 19% ym mis Gorffennaf 2021 i fis Ionawr 2022 i 14% yn 2022-23.

Rhoddwyd 'cost' fel y prif reswm am 2022-23 yn amlach o gymharu â Gorffennaf 2021 i Ionawr 2022 ar gyfer pob ymddygiad amgylcheddol ac eithrio 'osgoi neu fwyta llai o gynnyrch llaeth', fel y dangosir yn Ffigur 2.

## Ffigur 3: Pobl a nododd 'cost' fel eu prif gymhelliant ar gyfer ymddygiadau amgylcheddol, Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022 a Ebrill 2022 ac Mawrth 2023





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar yn dangos canran y bobl a roddodd ‘cost’ fel eu prif reswm dros berfformio pob ymddygiad amgylcheddol rhwng Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022 a 2022-23. Roedd y rhan fwyaf o ymddygiadau yn dangos cynnydd o ran dewis ‘cost’ ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, ond ni chanfuwyd unrhyw newid ar gyfer pobl sy'n osgoi neu'n bwyta llai o gynnyrch llaeth. Roedd y cynnydd mwyaf ar gyfer lleihau’r defnydd o ynni yn y cartref ac osgoi neu gwtogi ar deithio mewn car, lle bu cynnydd o dros 20 pwynt canran yn y rhai a wnaeth ddewis ‘cost’ yn 2022-23 o gymharu â Gorffennaf 2021 i Ionawr 2022.

Cafodd cymhellion pobl dros ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd hefyd eu dadansoddi yn erbyn y ffactorau y canfuwyd eu bod yn gysylltiedig â pherfformio o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar.

Ar gyfer pob math o ymddygiad sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac eithrio ‘osgoi neu gwtogi ar deithio mewn car’, nid oedd unrhyw wahaniaethau i'w gweld yng nghymhellion pobl a oedd wedi cyflawni unrhyw gamau atgyweirio ac ailddefnyddio neu beidio yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Osgoi neu gwtogi ar deithio mewn car

I bobl sy'n osgoi neu'n cwtogi ar deithio mewn car, dywedodd 43% mai ‘cost’ oedd eu prif gymhelliant. Roedd y grwpiau canlynol yn fwy tebygol o nodi ‘cost’ na'r cyfartaledd:

- bod wedi gwahanu ar hyn o bryd mewn priodas neu bartneriaeth sifil (58%)
- byw mewn amddifadedd materol (60%)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn y cyfamser, roedd y grwpiau canlynol yn llai tebygol na’r cyfartaledd o roi ‘cost’ fel eu prif reswm dros leihau’r defnydd o geir:

- bod yn 65 oed neu'n hŷn (37%)
- bod yn bartner sydd wedi goroesi o briodas neu bartneriaeth sifil (33%)

Dywedodd 13% ychwanegol o bobl a oedd yn cyfyngu ar eu defnydd o geir mai eu prif reswm oedd ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’. Meddu ar Gymhwyster Cenedlaethol Lefel 4 neu uwch oedd yr unig ffactor a ddangosodd gyfran uwch o bobl yn dweud mai hwn oedd eu prif reswm, gyda 18%. Roedd y categorïau canlynol yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddewis ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’:

- bod yn bartner sydd wedi goroesi o briodas neu bartneriaeth sifil (7%)
- bod heb unrhyw gymwysterau (7%)
- byw mewn amddifadedd materol (8%)

Dywedodd 18% o bobl sy'n cyfyngu ar eu defnydd o geir mai eu prif reswm oedd ‘nad oes angen iddynt deithio cymaint mewn car’. Roedd hyn yn fwy tebygol ar gyfer pobl 65 oed neu'n hŷn (28%); partneriaid sy'n goroesi o briodas neu bartneriaeth sifil (30%); a phobl nad oeddent wedi cyflawni unrhyw gamau atgyweirio neu ailddefnyddio yn y 12 mis diwethaf (38%). I'r gwrthwyneb, dim ond y rhai oedd yn byw mewn amddifadedd materol oedd yn llai tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o roi hyn fel eu prif reswm, gyda 8%.

Roedd merched yn fwy tebygol na dynion o adrodd eu prif reswm fel ‘rheswm arall’, h.y. un heb ei restru yn yr holiadur, gyda 7% o ferched yn gwneud hynny o gymharu â 4% o ddynion. Nid oedd y naill grŵp na'r llall yn dangos gwahaniaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Osgoi neu leihau teithio mewn awyren

Y rheswm a ddewiswyd amlaf dros gyfyngu ar deithiau awyr oedd ‘nad oes angen iddynt deithio mewn awyren cymaint’, gyda 35% o bobl yn gwneud hynny yn rhestru hyn fel eu prif reswm. Dywedodd 25% pellach o bobl mai ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ oedd eu prif reswm, a 20% yn rhoi ‘cost’ fel eu prif reswm.

Yn debyg i deithio mewn car, roedd y rhesymau a roddwyd gan bobl 65 oed neu'n hŷn yn amlwg yn wahanol i grwpiau oedran eraill. Dywedodd 44% o'r bobl yn y grŵp oedran hwn nad oeddent yn teithio llawer mewn awyren mai eu prif reswm am hynny oedd ‘nad oedd angen iddynt deithio mewn awyren cymaint’. Roedd llai o bobl yn y grŵp oedran hwn yn nodi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ neu ‘gost’ fel eu prif reswm, gyda 11% o bobl 65 oed neu'n hŷn yn dewis ‘cost’ a 18% yn dewis ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’. Roedd pobl 45 i 64 oed yn llai tebygol na'r cyfartaledd o nodi ‘dim angen teithio mewn awyren cymaint’ fel eu prif reswm (27%). Roedd pobl 16 i 44 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi ‘cost’ fel eu prif reswm (28%).

Roedd partneriaid priodasau a phartneriaethau sifil sydd wedi goroesi hefyd yn dangos tuedd debyg, gyda 52% yn nodi ‘dim angen teithio mewn awyren cymaint’ fel eu prif reswm dros leihau teithio awyr. At hynny, nododd llai o bartneriaid a oedd wedi goroesi mai ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ neu ‘gost’ oedd eu prif reswm, gyda 13% yn nodi ‘cyfyngu ar effeithiau newid

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hinsawdd' a 11% yn nodi 'cost' yn y drefn honno.

Roedd pobl a oedd yn byw mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o roi 'cost' fel eu prif reswm, gyda 43% o bobl mewn amddifadedd materol a oedd yn lleihau teithiau awyr yn rhoi hyn fel eu rheswm. Dywedodd 25% 'dim angen teithio mewn awyren cymaint' fel eu prif reswm, ac roedd 12% arall yn nodi 'cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd' fel eu prif reswm.

Roedd cael addysg uwch yn cynyddu'r tebygolrwydd o roi 'cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd' fel y prif reswm dros leihau'r defnydd o awyrennau, gyda 35% o bobl â Chymhwyster Cenedlaethol Lefel 4 neu uwch yn gwneud hynny. Mewn cymhariaeth, rhoddodd 9% o'r rhai â chymwysterau Lefel 2 y rheswm hwn a rhoddodd 7% o'r rhai heb gymwysterau'r ymateb hwn.

Roedd dynion yn fwy tebygol o fod â 'dim angen teithio mewn awyren cymaint' fel eu prif reswm o gymharu â menywod, gyda 38% o ddynion yn gwneud hynny o gymharu â 31% o fenywod.

## Osgoi neu fwyta llai o gig a chynnyrch llaeth

'Rhesymau iechyd neu ddeietegol' oedd y rheswm mwyaf cyffredin pam roedd pobl yn bwyta llai o gig a chynnyrch llaeth: dywedodd 41% o bobl yn bwyta llai o gig a 62% o bobl yn bwyta llai o gynnyrch llaeth mai hwn oedd eu prif reswm dros wneud hynny.

'Rhesymau moesegol' oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin am ymddygiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

seiliedig ar ddeiet, gyda 22% o bobl yn bwyta llai o gig a 17% o bobl yn bwyta llai o gynnyrch llaeth yn dweud mai dyna oedd eu prif reswm.

Roedd ‘cost’ a ‘chyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ yn rhesymau llai cyffredin yn y ddau achos, ond roedd y ddau yn fwy tebygol o gael eu rhoi fel y prif reswm dros leihau bwyta cig nag ar gyfer cynnyrch llaeth. Nodwyd ‘cost’ gan 13% o'r rhai sy'n bwyta llai o gig a 6% o'r rhai sy'n bwyta llai o gynnyrch llaeth. ‘Cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ oedd y rheswm a roddwyd gan 18% o bobl yn bwyta llai o gig a 10% o'r rhai'n bwyta llai o gynnyrch llaeth.

Roedd y ffactorau canlynol yn gysylltiedig â phobl yn dewis ‘rhesymau iechyd neu ddeietegol’ fel eu prif reswm dros leihau’r cig a fwyteir:

- bod yn 65 oed neu'n hŷn (55%)
- bod yn briod ar hyn o bryd neu mewn partneriaeth sifil (49%)
- bod yn bartner sydd wedi goroesi o briodas neu bartneriaeth sifil (50%)

Roedd yr unigolion a oedd yn 65 oed neu'n hŷn hefyd yn llai tebygol na’r cyfartaledd o gael ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm dros fwyta llai o gig: rhoddodd 7% o'r rhai dros 65 oed hyn fel eu prif reswm.

Yn y cyfamser, roedd y ffactorau canlynol yn dangos tebygolrwydd is o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol i ddyfynnu ‘rhesymau iechyd neu ddeietegol’ fel eu prif reswm dros fwyta llai o gig, gyda 27% o bob grŵp â’r rheswm hwn fel eu prif reswm dros wneud hynny:

- bod yn 16 i 44 oed
- peidio â bod yn heterorywiol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- bod yn sengl
- byw mewn amddifadedd materol

Roedd canran y bobl oedd â 'cost' fel eu prif reswm dros fwyta llai o gig yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn amddifadedd materol, a dyma'r rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd i'r grŵp, gyda 37% o achosion. Roedd diffyg cymwysterau addysgol hefyd yn dangos cynnydd yn nifer y bobl a nododd 'cost' fel eu prif reswm, gyda 29% o achosion yn gwneud hynny.

Roedd y rhesymau pam fod pobl yn lleihau bwyta cynnyrch llaeth yn dangos llai o wahaniaethau o'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd diffyg cywirdeb yn ein canlyniadau oherwydd bod cyfran lai o bobl yn dewis yr ymddygiad hwn.

Roedd pobl 65 oed neu'n hŷn sy'n bwyta llai o gynnyrch llaeth yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi 'rhesymau iechyd neu ddeietegol' fel eu prif reswm, gyda 72% o bobl yn gwneud hynny. Roeddent hefyd yn llai tebygol o nodi 'rhesymau moesegol' fel eu prif reswm na'r cyfartaledd, gyda dim ond 10% o'r grŵp yn gwneud hynny.

Roedd 'cost' yn fwy tebygol o fod yn rheswm a roddwyd dros gwtogi ar gynnyrch llaeth i bobl heb gymwysterau a'r rhai sy'n byw mewn amddifadedd materol, gyda 21% o bobl heb gymwysterau a 23% o bobl mewn amddifadedd materol a oedd yn lleihau faint o gynnyrch llaeth a fwyteir yn nodi 'cost' fel eu prif reswm dros wneud hynny.

Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o nodi 'rhesymau moesegol' fel eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

prif reswm dros leihau’r cig a fwyteir ganddynt, gyda 26% o fenywod yn gwneud hynny o gymharu â 18% o ddynion.

## Lleihau'r defnydd o ynni yn y cartref

Dewisodd 84% o bobl sy'n lleihau'r defnydd o ynni ‘gost’ fel eu prif reswm. Dewisodd 11% arall ‘gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm, ac roedd gan 5% ‘ddim angen defnyddio cymaint o ynni’.

Roedd pobl 65 oed neu'n hŷn a oedd yn lleihau eu defnydd o ynni yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud ‘nid oes angen iddynt ddefnyddio cymaint o ynni’, sy'n digwydd mewn 7% o achosion. Gwelwyd cynnydd tebyg mewn partneriaid sydd wedi goroesi o briodasau a phartneriaethau sifil, gyda 9% o'r rhai sy'n arbed ynni o fewn y grŵp yn dweud mai dyma'r prif reswm dros hynny.

Unwaith eto, roedd pobl sy’n byw mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol na’r cyfartaledd o ddewis ‘cost’ fel eu prif gymhelliant, gyda 94% o bobl ag amddifadedd materol a oedd yn arbed ynni â ‘chost’ fel eu prif reswm dros wneud hynny o gymharu â 82% o bobl nad ydynt mewn amddifadedd. Dangosodd ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ ostyngiad cyfatebol o’i gymharu â’r cyfartaledd, a dyna’r rheswm a ddewiswyd gan 5% o bobl ag amddifadedd materol.

Roedd y rhai heb gymwysterau yn dangos patrymau tebyg i’r rhai a oedd yn byw mewn amddifadedd materol: o'r rhai sy'n lleihau'r defnydd o ynni, nododd 90% o bobl heb gymwysterau ‘gost’ fel eu prif reswm, a dywedodd 5% o'r un grŵp mai

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ oedd eu prif reswm. Roedd y rhai â chymwysterau islaw Lefel 2 Cymhwyster Cenedlaethol hefyd yn dangos mwy o debygolrwydd na'r cyfartaledd o ran nodi cost fel eu prif gymhelliant dros arbed ynni, sef 92%.

Ni ddarganfuwyd unrhyw wahaniaethau am y rhesymau dros leihau'r defnydd o ynni o'u dadansoddi fesul rhyw.

## Lleihau prynu pethau newydd sbon

‘Cost’ unwaith eto oedd y rheswm mwyaf tebygol a roddwyd dros brynu llai o bethau newydd sbon, gan gael ei dewis gan 43% o bobl oedd wedi prynu llai o bethau newydd. Dywedodd 31% mai eu prif gymhelliant oedd ‘nad oes angen iddynt brynu cymaint o bethau newydd’, a phrynodd 12% arall lai o bethau newydd er mwyn ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’. Yn ogystal, roedd 14% o bobl yn prynu llai o bethau newydd oherwydd ei bod yn ‘well ganddynt drwsio neu brynu ail-law’.

Roedd y grwpiau canlynol yn fwy tebygol na’r cyfartaledd cenedlaethol o fod â ‘chost’ fel eu prif reswm dros brynu llai o bethau newydd sbon:

- pobl 16 i 44 oed (52%)
- pobl sengl (49%)
- pobl sydd wedi’u gwahanu oddi wrth briodasau a phartneriaethau sifil ar hyn o bryd (60%)
- pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol (72%)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- pobl gyda Lefel 2 Cymhwyster Cenedlaethol (51%) neu is (60%)

Roedd y gostyngiadau cyfatebol eraill a restrwyd dros brynu llai o bethau newydd yn amrywio rhwng grwpiau. Pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol oedd yr unig grŵp o bobl i ostwng yr holl resymau eraill a grybwyllwyd yn flaenorol yn is na'u cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd gan 12% o'r grŵp ‘ddim angen prynu cymaint o bethau newydd’ fel eu prif reswm, rhoddodd 6% o bobl ag amddifadedd materol ‘gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm, a ‘gwell gennyf atgyweirio neu brynu ail-law’ oedd prif reswm 9%.

Roedd pobl 16 i 44 oed a phobl sengl yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddewis y rheswm ‘nid oes angen prynu cymaint o bethau newydd’ am brynu llai o bethau newydd sbon, gyda 21% a 23% yn y drefn honno.

Roedd pobl â Lefel 2 fel eu Cymhwyster Cenedlaethol uchaf a oedd yn prynu llai o bethau newydd yn llai tebygol o roi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 7% yn gwneud hynny. Roedd pobl heb unrhyw gymwysterau hefyd yn rhoi'r rheswm hwn yn llai aml na'r cyfartaledd, gyda 3% yn gwneud hynny.

Yn y cyfamser, roedd pobl a oedd yn prynu llai o bethau newydd yn y grwpiau canlynol yn llai tebygol na'r cyfartaledd o roi ‘cost’ fel eu prif gymhelliant:

- pobl 65 oed neu'n hŷn (26%)
- partneriaid sydd wedi goroesi o briodasau neu bartneriaethau sifil (29%)
- pobl nad ydynt yn byw mewn amddifadedd materol (35%)
- pobl gyda Chymhwyster Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch (35%)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd achosion o gynnydd cyfatebol i gymhellion eraill yn dangos gwahaniaethau o'r cyfartaledd cenedlaethol am y rhesymau ‘nid oes angen prynu cymaint o bethau newydd’ a ‘chyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’.

Roedd pobl 65 oed neu'n hŷn sy’n prynu llai o bethau newydd yn dangos cynnydd yn nifer y bobl a ddewisodd ‘ddim angen prynu cymaint o bethau newydd’ am eu prif reswm (54%), a gostyngiad yn nifer y bobl sy’n rhoi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm (8%).

Dangosodd partneriaid sydd wedi goroesi priodasau a phartneriaethau sifil wahaniaethau tebyg i’r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 52% o bobl yn rhoi ‘dim angen prynu cymaint o bethau newydd’ am eu prif reswm, a 7% o bobl yn rhoi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm. Roedd pobl oedd yn briod ar hyn o bryd hefyd yn rhoi tebygolrwydd uwch na'r cyfartaledd o ‘ddim angen prynu cymaint o bethau newydd’ fel eu prif reswm, sef 36%.

Roedd pobl nad oeddent yn byw mewn amddifadedd materol hefyd yn rhoi cyfradd uwch na'r cyfartaledd o bobl sy’n nodi ‘dim angen prynu cymaint o bethau newydd’ fel eu prif reswm, gyda 35% yn gwneud hynny.

Dywedodd pobl nad oeddent wedi prynu neu dderbyn eitemau newydd sbon yn y 12 mis diwethaf ‘nad oes angen prynu cymaint o bethau newydd’ fel eu prif reswm yn amlach na'r cyfartaledd hefyd, gyda 42% yn gwneud hynny. Roedd y grwpiau hyn hefyd yn llai tebygol o nodi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm, gyda 8% yn gwneud hynny.

Roedd pobl â Chymwysterau Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch yn rhoi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm yn amlach, gyda 17% o'r grŵp

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hwn yn dewis y rheswm hwn.

Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o nodi ‘cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd’ fel eu prif reswm dros brynu cyn lleied â phosibl o bethau newydd sbon, gyda 14% o fenywod yn gwneud hynny o gymharu â 10% o ddynion. Unwaith eto, nid oedd y naill grŵp na'r llall yn dangos gwahaniaeth o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Atgyweirio ac ailddefnyddio




o oedolion wedi atgyweirio neu ailddefnyddio eitemau yn y 12 mis diwethaf

Holwyd pobl hefyd am bedwar dull o atgyweirio ac ailddefnyddio a gofynnwyd iddynt hefyd a oeddent wedi cyflawni'r rhain o fewn y 12 mis diwethaf. Y dulliau atgyweirio ac ailddefnyddio oedd:

- gwerthu neu roi eitemau ail-law
- prynu neu dderbyn eitemau ail-law
- atgyweirio neu newid dillad na fyddent wedi cael eu defnyddio heb wneud hynny

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- atgyweirio neu newid eitemau yn y cartref na fyddent wedi cael eu defnyddio heb wneud hynny

Nid oedd canran y bobl a wnaeth o leiaf un o’r rhain yn ystod y 12 mis diwethaf wedi newid ers Gorffennaf 2021 i Ionawr 2022, ond yn uwch na 2018-19, pan oedd 88% o bobl wedi gwneud o leiaf un o’r camau hyn. (Dylid cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau cyn y pandemig â’r rhai o flynyddoedd diweddarach, oherwydd newidiodd dull yr arolwg o wyneb yn wyneb i dros y ffôn ym mis Ebrill 2020 a gallai hyn fod wedi cael rhywfaint o effaith ar y canlyniadau.)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 4: Cymryd rhan mewn camau atgyweirio ac ailddefnyddio o fewn y 12 mis diwethaf, Ebrill 2018 ac Mawrth 2019, Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022 a Ebrill 2022 ac Mawrth 2023




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart colofn yn dangos pedwar ymddygiad atgyweirio ac ailddefnyddio a berfformiwyd gan bobl yn 2018-19, Gorffennaf 2021 i Ionawr


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2022, a 2022-23. Ni ellid nodi unrhyw wahaniaethau rhwng Gorffennaf 2021 ac Ionawr 2022 a 2022-23, ond dangosodd y ddau gynnydd ym mhob un o'r pedwar ymddygiad o gymharu â 2018-19.

Cynhaliwyd dadansoddiad manwl i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng ymgymryd ag o leiaf un ymddygiad atgyweirio neu ailddefnyddio o fewn y 12 mis diwethaf ac amrywiaeth o ffactorau demograffig a daearyddol yn 2022-23. Wrth reoli ar gyfer cysylltiadau â ffactorau eraill, canfuwyd bod y canlynol yn gysylltiedig yn annibynnol â chyflawni camau atgyweirio ac ailddefnyddio:

Canfuwyd bod rhyw yn ffactor, gyda merched yn cyflawni o leiaf un ymddygiad atgyweirio neu ailddefnyddio o fewn y 12 mis diwethaf mewn 96% o achosion, o gymharu â 94% o ddynion.

Canfuwyd hefyd fod cymhwyster addysgol uchaf yn ffactor annibynnol, gyda 98% o bobl â Chymhwyster Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch yn cyflawni o leiaf un dull atgyweirio ac ailddefnyddio, o gymharu â 89% o bobl heb unrhyw gymwysterau.

Roedd 96% o bobl ag iechyd cyffredinol 'da' neu 'dda iawn' wedi gwneud rhyw fath o ddull atgyweirio neu ailddefnyddio yn y 12 mis diwethaf, tra oedd 89% o bobl ag iechyd 'gwael' neu 'wael iawn' wedi gwneud yr un peth. Ni ddangosodd pobl a nododd fod eu hiechyd yn 'weddol' unrhyw wahaniaeth o gymharu â'r rhai ag iechyd 'da' neu 'dda iawn'.

Roedd cyflawni o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar hefyd yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o ymddygiadau atgyweirio neu ailddefnyddio: roedd 97% o'r rhai a oedd yn ymddwyn yn ecogyfeillgar yn rheolaidd hefyd wedi gwneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhyw fath o atgyweirio neu ailddefnyddio o fewn y 12 mis diwethaf, tra oedd 85% o'r bobl nad oeddent wedi cyflawni unrhyw ymddygiad ecogyfeillgar yn rheolaidd wedi gwneud rhyw fath o waith atgyweirio neu ailddefnyddio.

Roedd y math o aelwyd yn gysylltiedig â chamau atgyweirio ac ailddefnyddio diweddar, gyda 98% o ymatebwyr o gyplau â phlant dibynnol wedi gwneud hynny o fewn y 12 mis diwethaf, yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol. I'r gwrthwyneb, roedd oedolion sengl heb blant a phensiynwyr sengl yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi cymryd camau atgyweirio ac ailddefnyddio, gyda 93% a 89% o bob grŵp priodol wedi gwneud hynny o fewn y 12 mis diwethaf.

Yn olaf, canfuwyd hefyd fod awdurdod lleol yn gysylltiedig ag atgyweirio ac ailddefnyddio. Roedd pobl sy'n byw ym Mro Morgannwg ac Abertawe yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o fod wedi gwneud o leiaf un cam o'r fath o fewn y 12 mis diwethaf, sef 99% a 97%, yn y drefn honno. Roedd pobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gwneud unrhyw weithgareddau atgyweirio neu ailddefnyddio yn y 12 mis diwethaf.

## Camau atgyweirio ac ailddefnyddio unigol

Cafodd gweithredoedd atgyweirio ac ailddefnyddio pobl eu dadansoddi yn erbyn y ffactorau y canfuwyd eu bod yn gysylltiedig â chyflawni o leiaf un cam atgyweirio ac ailddefnyddio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwerthu neu roi eitemau ail-law

Yn gyffredinol, roedd 90% o bobl naill ai wedi gwerthu neu roi eitemau ail-law yn y 12 mis diwethaf. Ar gyfer pob un o'r chwe ffactor cysylltiedig a drafodwyd uchod, canfuwyd o leiaf un gwahaniaeth i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd merched yn fwy tebygol o fod wedi gwerthu neu roi eitemau, gyda 93% wedi gwneud hynny o fewn y 12 mis diwethaf o gymharu â 87% o ddynion.

Roedd pobl â Chymhwyster Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwerthu neu roi na'r cyfartaledd, ar ôl gwneud hynny mewn 93% o achosion. Roedd y rhai heb unrhyw gymhwyster yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gwerthu neu roi eitemau ail-law o fewn y 12 mis diwethaf, gyda 82% wedi gwneud hynny.

Roedd pobl sy'n nodi iechyd cyffredinol 'gwael' neu 'wael iawn hefyd yn llai tebygol o werthu neu roi, ac roedd 81% o bobl o'r fath wedi gwneud hynny. Ni ddangosodd y rhai a nododd fod eu hiechyd yn 'weddol' neu 'dda' neu 'dda iawn' unrhyw wahaniaethau o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd pobl a oedd yn ymgymryd ag o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar yn rheolaidd yn fwy tebygol o fod wedi gwerthu neu roi eitemau yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda 92% o'r bobl a oedd wedi ymgymryd ag ymddygiadau amgylcheddol o'r fath hefyd wedi gwerthu neu roi. Yn y cyfamser, roedd 76% o bobl nad oedd wedi cyflawni ymddygiad ecogyfeillgar wedi gwerthu neu roi eitemau ail-law.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd y math o aelwyd hefyd yn dangos rhai gwahaniaethau o'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd 97% o barau â phlant nad oeddent yn bensiynwyr wedi gwerthu neu roi o fewn y 12 mis diwethaf. Aelwydydd â phreswylwyr sengl oedd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o werthu neu roi eitemau ail-law, gyda 82% o oedolion sengl o oedran gweithio a 81% o bensiynwyr sengl yn gwneud hynny o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd pobl sy’n byw ym Mro Morgannwg yn fwy tebygol o werthu neu roi eitemau ail-law o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 98% o’r ymatebwyr yn gwneud hynny. Mewn cyferbyniad, roedd 81% o bobl sy’n byw ar Ynys Môn wedi gwerthu neu roi eitemau yn y 12 mis diwethaf.

## Prynu neu dderbyn eitemau ail-law

Prynu neu dderbyn eitemau ail-law oedd yr ail ymddygiad atgyweirio ac ailddefnyddio mwyaf tebygol, gyda 70% o bobl yn gwneud hynny ar y cyfan.

Unwaith eto, roedd menywod yn fwy tebygol o berfformio'r ymddygiad hwn na dynion, gyda 72% yn gwneud hynny o fewn y 12 mis diwethaf o gymharu â 68% o ddynion. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r rhain yn dangos gwahaniaethau o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd cymhwyster uchaf yn dangos cydberthynas debyg â phrynu neu dderbyn ail-law ag a ganfuwyd ar gyfer gwerthu neu roi. Roedd pobl â Chymwysterau Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 75% wedi gwneud hynny. Yn y cyfamser, roedd 59% o'r rhai heb unrhyw gymwysterau a 61% o'r rhai â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chymwysterau islaw Lefel 2 wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law, y ddau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ni ellid canfod unrhyw wahaniaethau rhwng iechyd cyffredinol pobl a'u tebygolrwydd o brynu neu dderbyn eitemau ail-law.

Canfuwyd eto fod arferion ymddygiad sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd yn amrywio o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol: roedd 73% o bobl oedd wedi cyflawni o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar hefyd wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law yn y 12 mis diwethaf. Mewn cymhariaeth, roedd 46% o bobl nad oedd wedi cyflawni unrhyw ymddygiad ecogyfeillgar wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law yn y 12 mis diwethaf.

Roedd y math o aelwyd yn dangos mwy o wahaniaethau o'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer prynu neu dderbyn eitemau ail-law nag a ganfuwyd ar gyfer gwerthu neu roi eitemau ail-law. Roedd pobl sy’n byw yn yr aelwydydd canlynol yn fwy tebygol na’r cyfartaledd o fod wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Cyplau nad ydynt yn bensiynwyr ac sydd â phlant dibynnol (81%)
- Cyplau nad ydynt yn bensiynwyr ac sydd heb blant dibynnol (75%)
- Oedolion sengl gyda phlant dibynnol (78%)

Roedd aelwydydd pensiynwyr, ar y llaw arall, yn llai tebygol na’r cyfartaledd o fod wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law, gyda 50% o bensiynwyr sengl a 56% o bobl o gyplau sy’n bensiynwyr wedi gwneud hynny.

Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd yn dangos gwahaniaeth o gymharu â'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyfartaledd cenedlaethol. Ym Mhowys a Bro Morgannwg, roedd pobl yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law yn y 12 mis diwethaf, gyda 75% a 77% o bobl wedi gwneud hynny, yn y drefn honno. Roedd pobl sy’n byw ym Mlaenau Gwent, mewn cyferbyniad, yn llai tebygol na’r cyfartaledd o fod wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law, gyda 61% o bobl yn yr awdurdod lleol wedi gwneud hynny.

## Atgyweirio neu addasu dillad

Roedd 45% o bobl wedi atgyweirio neu addasu dillad o fewn y 12 mis diwethaf a fyddai fel arall wedi cael eu taflu.

O'r pedwar cam atgyweirio ac ailddefnyddio a fesurwyd, atgyweirio neu addasu dillad oedd yn dangos y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddau ryw, gyda 51% o fenywod wedi atgyweirio neu addasu dillad o fewn y 12 mis diwethaf, o gymharu â 39% o ddynion.

Roedd cymhwyster uchaf yn dilyn yr un tueddiadau a ganfuwyd ar gyfer yr ymddygiadau blaenorol. Unwaith eto, roedd pobl â Chymwysterau Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gyflawni'r gweithgaredd atgyweirio ac ailddefnyddio hwn, gyda 52% wedi atgyweirio neu addasu dillad o fewn y 12 mis diwethaf. Yn yr un modd, roedd pobl â Chymwysterau Cenedlaethol o dan Lefel 2 neu ddim cymwysterau yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi atgyweirio neu addasu dillad, gyda 36% o bobl wedi gwneud hynny yn y ddau grŵp.

Ni ellid dod o hyd i unrhyw wahaniaethau o ran y tebygolrwydd o atgyweirio neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

addasu dillad pan fyddant yn cael eu dadansoddi yn ôl iechyd cyffredinol.

Roedd ymddygiadau sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o atgyweirio neu addasu dillad, gyda 48% o bobl yn cyflawni o leiaf un ymddygiad amgylcheddol o’r fath wedi atgyweirio neu addasu dillad o fewn y 12 mis diwethaf. Mewn cymhariaeth, roedd 26% o bobl nad oeddent wedi cyflawni ymddygiad ecogyfeillgar wedi atgyweirio neu addasu dillad.

Roedd mathau o aelwydydd yn dangos un grŵp yn unig â gwahaniaeth o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer atgyweirio neu newid dillad: roedd 39% o bensiynwyr sengl wedi gwneud y cam hwn, yn is na'r cyfartaledd.

Roedd pobl sy’n byw ym Mhowys yn fwy tebygol na’r cyfartaledd cenedlaethol o fod wedi atgyweirio neu addasu dillad yn y 12 mis diwethaf, gyda 53% o bobl wedi gwneud hynny. Roedd y rhai a oedd yn byw yng Nghaerffili neu Flaenau Gwent yn llai tebygol na’r cyfartaledd o atgyweirio neu ailddefnyddio dillad, gyda’r weithred hon yn cael ei gwneud gan 37% a 35% o bobl, yn y drefn honno.

## Atgyweirio eitemau cartref

Atgyweirio eitemau cartref (e.e. dodrefn, oergell, tegell), neu drefnu i hynny ddigwydd, oedd yr ymddygiad atgyweirio ac ailddefnyddio a oedd leiaf tebygol o gael ei ddewis, gyda 40% o bobl wedi gwneud hyn o fewn y 12 mis diwethaf.

Yn wahanol i’r camau atgyweirio ac ailddefnyddio eraill, roedd dynion yn fwy tebygol o fod wedi atgyweirio eitem cartref neu wedi trefnu iddi gael ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hatgyweirio (43% o ddynion) na menywod (37%).

Unwaith eto, roedd pobl â chymwysterau uwch yn fwy tebygol o atgyweirio eitemau cartref na’r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 46% o bobl â Chymwysterau Cenedlaethol ar Lefel 4 neu uwch yn gwneud hynny. Roedd 31% o bobl heb unrhyw gymwysterau yn atgyweirio eitemau cartref, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ogystal, roedd pobl â chymhwyster Lefel 2 fel eu cymhwyster uchaf hefyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi atgyweirio eitem yn y cartref (35% o bobl o'r fath).

Ni ellid dod o hyd i unrhyw wahaniaethau o ran y tebygolrwydd o atgyweirio eitemau cartref neu drefnu iddynt gael eu hatgyweirio o'u dadansoddi yn ôl iechyd cyffredinol.

Roedd pobl nad oeddent wedi ymgymryd ag unrhyw ymddygiad ecogyfeillgar yn llai tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o atgyweirio eitemau cartref (24% o bobl o'r fath). Nid oedd pobl a oedd yn ymarfer o leiaf un ymddygiad ecogyfeillgar yn dangos gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o atgyweirio eitemau cartref o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Eto, ychydig iawn o wahaniaethau a ddangosodd y math o aelwyd yn y tebygolrwydd o atgyweirio eitemau cartref o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yr eithriad oedd pensiynwyr sengl, gan eu bod unwaith eto yn llai tebygol na’r cyfartaledd o gyflawni cam atgyweirio ac ailddefnyddio, gyda 23% o’r grŵp yn atgyweirio neu’n trefnu i atgyweirio eitem cartref yn y 12 mis diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cymariaethau â ffynonellau eraill

Cynhaliwyd **arolwg Llywodraeth Cymru** arall yn asesu ymddygiadau a effeithiodd ar yr amgylchedd yn ystod pandemig COVID-19, ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2020. Fodd bynnag, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn amrywio o ran y cwestiynau a ofynnir i ymatebwyr yn ogystal ag ym methodoleg yr arolwg, ac felly nid oes modd cymharu'r ddau yn uniongyrchol.

Rhyddheir data ystadegol yn ymwneud ag ailgylchu ar **dudalennau rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol**. Unwaith eto, ni ellir cymharu'r data hwn yn uniongyrchol ag ystadegau'r Arolwg Cenedlaethol ond mae'n darparu cyd-destun defnyddiol. Mae data ar draws y DU yn ymwneud ag ailgylchu domestig ar gael yn set ddata **Ystadegau'r DU ar Wastraff (Department for Environment, Food & Rural Affairs)**.

## Cyd-destun polisi

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi bod ehangu atgyweirio ac ailddefnyddio yn rhan hanfodol o weithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur. Ystyrir bod yr ehangu hwn yn rhan allweddol o gyflawni gwell canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o symud i economi gylchol a thrawsnewid i sero net. Mae strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru, **Mwy nag ailgylchu**, yn gwneud ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwybodaeth am ansawdd

Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru** yn arolwg ffôn parhaus ar raddfa fawr o hapsampl sy'n cwmpasu pobl ledled Cymru.  Mae cyfeiriadau'n cael eu dewis ar hap, ac anfonir gwahoddiadau drwy'r post, yn gofyn am rif ffôn ar gyfer y cyfeiriad. Gellir darparu'r rhif ffôn trwy borth ar-lein, llinell ymholiadau ffôn, neu'n uniongyrchol i rif ffôn symudol y cyfwelydd ar gyfer yr achos hwnnw. Os na ddarperir rhif ffôn, gall cyfwelydd alw yn y cyfeiriad a gofyn am rif ffôn.

Roedd y canlyniadau a drafodwyd yn yr adroddiad hwn yn rhan o adran hunangwblhau ar-lein. Cynhaliwyd rhan gyntaf yr arolwg hwn dros y ffôn; gofynnwyd wedyn i ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd gwblhau set fer o gwestiynau ar-lein. Ar gyfer ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd neu nad oeddent yn gyfforddus neu'n gallu cwblhau'r adran ar-lein eu hunain, gofynnodd y cyfwelydd y cwestiynau dros y ffôn yn lle hynny.

Mae siartiau manwl a thablau canlyniadau ar gael yn ein **dangosydd canlyniadau** rhyngweithiol.I gael gwybodaeth am gasglu data a'n methodoleg, gweler tudalennau ein **hadroddiad ansawdd**,  **ein hadroddiad technegol** a'n **hadroddiad atchweliad**.

Lle nodir gwahaniaethau yn yr adroddiad hwn rhwng grwpiau neu rhwng blynyddoedd, rydym wedi canfod bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol – er enghraifft, oherwydd bod y cyfyngau hyder o 95% o gwmpas dau amcangyfrif yn gorgyffwrdd. Lle nodir 'dim gwahaniaeth', mae hyn yn golygu nad oes unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol wedi'i nodi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae traws-ddadansoddiad yn awgrymu y gall ffactorau amrywiol fod yn gysylltiedig â'r ymatebion a roddwyd i bob cwestiwn a ofynnir yn yr Arolwg Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, gall pobl â chyflwr cyfyngus hirdymor fod yn hŷn hefyd). Er mwyn cael dealltwriaeth gliriach o effaith pob ffactor unigol, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol i wahanu effaith unigol pob ffactor. Mae'r dulliau hyn yn ein galluogi i edrych ar effaith un ffactor wrth gadw ffactorau eraill yn gyson – a elwir weithiau yn "rheoli ar gyfer ffactorau eraill". Nodwyd pob dadansoddiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel ffactor unigol.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, a golygir hyn eu bod yn cydymffurfio â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ddibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â holl agweddau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Maent yn derbyn statws Ystadegau Gwladol ar ôl asesiad gan adran reoleiddiol Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfedd â'r cod, gan gynnwys y gwerth maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfedd â'r safonau a ddisgwylir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan Ystadegau Gwladol. Os ydym yn dechrau pryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r awdurdod yn brydlon. Gellir diddymu statws Ystadegau Gwladol unrhyw bryd pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir ei ailosod pan gaiff y safonau hynny eu hadfer.

Cadarnhawyd dynodiad parhaus yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2020 yn dilyn gwiriad cydymffurfio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (**llythyr cadarnhad**). Cafodd yr ystadegau hyn eu hasesu'n llawn ddiwethaf (**adroddiad llawn**) yn erbyn y cod ymarfer yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Er enghraifft, rydym wedi:

- darparu dadansoddiadau manylach yn y **dangosydd canlyniadau**
- diweddaru pynciau'r arolwg yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion polisi sy'n newid

parhau i gynnal dadansoddiadau atchweliad fel rhan safonol o'n hallbynnau, i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau o ddiddordeb

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

nod llesiant ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, ffyniannus a chydnerth, sy’n iachach ac yn gyfrifol yn fyd-eang, ac sydd â chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. O dan adran (10)(1) y Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd o ran bodloni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd 50 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer **15 o'r 50 dangosydd**. Mae’r datganiad hwn yn cyflwyno’r canlyniadau ar gyfer dangosydd 19 – **canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol**.

Dyma ragor o wybodaeth ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol, a chael eu defnyddio gan Fyrddau Gwasanaethau cyhoeddus yng nghyswllt eu hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Tîm arolygon
E-bost: **arolygon@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

SB 12/2024

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-amgylcheddol-atgyweirio-ac-ailddefnyddio-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.